Gwasanaeth Cefnogi Swyddog Diogelu Data
Data Protection Officer Support Service
IGDC • DHCW

# Hysbysiad Preifatrwydd (Cleifion a Gofalwyr)

## Templed

Fersiwn: 6.0

Diweddarwyd ddiwethaf: 12/08/2026

Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut mae The Vale Of Neath Practice yn defnyddio'ch data personol.

The Vale Of Neath Practice yw'r rheolydd ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu. Mae'r practis wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol ac i barchu eich preifatrwydd. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i egluro sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch yn y practis.

## Pa wybodaeth ydym yn ei chasglu amdanoch?

Byddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch chi â'ch iechyd yn ogystal â gwasanaethau gofal iechyd rydych wedi'u derbyn.

Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol fel eich rhif GIG, enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, dyddiad geni a pherthynas agosaf.

Byddwn hefyd yn casglu gwybodaeth bersonol sensitif amdanoch (sef 'data categori arbennig') sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'ch iechyd (apwyntiadau, ymweliadau, gwybodaeth am driniaeth, canlyniadau profion, pelydrau-X neu adroddiadau), yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â'ch cyfeiriadedd rhywiol, hil neu grefydd.

Mae'r holl wybodaeth rydym yn ei chasglu ac yn ei chadw amdanoch yn rhan o'ch cofnod meddygol ac fe'i cedwir yn bennaf i sicrhau eich bod yn derbyn y driniaeth a'r gofal gorau posibl.

Yn ogystal, efallai y byddwn yn tynnu llun ohonoch ar deledu cylch cyfyng y feddygfa pan fyddwch yn mynd i safle'r practis.

## Sut mae'ch data personol yn cael eu casglu?

Caiff yr wybodaeth a gadwn ei chasglu drwy lwybrau amrywiol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Rhyngweithio uniongyrchol â chi fel ein claf pan fyddwch yn cofrestru â ni am ofal a thriniaeth, yn ystod ymgynghoriadau â staff y practis ac wrth i chi danysgrifio i wasanaethau, er enghraifft, cylchlythyrau, negeseuon testun, recordiadau ffôn a chreu cyfrif ar gyfer gwasanaethau ar-lein.
- Yn anuniongyrchol gan ddarparwyr gofal iechyd eraill, pan fyddwch yn mynd i sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, er enghraifft, apwyntiadau meddyg teulu y tu allan i oriau neu ymweliadau â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys a rhyngweithio â Gofal Cymdeithasol, byddant yn rhoi gwybod i ni fel bod eich cofnod meddyg teulu yn cael ei gadw'n gyfredol.
- Trwy ddyfeisiau monitro y gellir eu gwisgo fel monitorau pwysedd gwaed.
- Pan gaiff eich llun ei dynnu ar gamerâu cylch cyfyng.
- Technolegau wedi'u hawtomeiddio. Er enghraifft, pan fyddwch yn rhyngweithio â'n gwefan, efallai y byddwn yn casglu data'n awtomatig am eich offer, eich gweithredoedd ac arferion/patrymau o ran pori. Cesglir hyn trwy ddefnyddio cwcis. Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio cwcis, gweler ein Polisi Cwcis valeofneathgps.org/CookiePolicy.aspx?pr=W98046

## Sut ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth?

Caiff yr wybodaeth y byddwn yn ei chasglu amdanoch ei defnyddio'n bennaf ar gyfer eich gofal a'ch triniaeth uniongyrchol, ond gellid ei defnyddio hefyd at y dibenion canlynol:

- Rheoli gwasanaethau gofal iechyd
- Cymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol
- Gofynion casglu data cenedlaethol
- Ymchwil feddygol ac archwilio clinigol
- Gofynion cyfreithiol
- Diogelwch ein staff a'n safle

## Partneriaid y gallem rannu eich gwybodaeth â hwy

Efallai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth, yn amodol ar gytundeb ynghylch sut y caiff ei defnyddio â'r sefydliadau canlynol:

- Ymddiriedolaethau GIG/Ymddiriedolaethau Sefydledig/Byrddau Iechyd
- Meddygon teulu eraill yn ein clwstwr
- Darparwyr y tu allan i oriau arferol
- Canolfannau diagnosteg neu driniaeth
- Contractwyr annibynnol fel deintyddion, optegwyr, fferyllwyr
- Darparwyr sector preifat
- Ymddiriedolaethau Ambiwlans
- Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd
- Awdurdodau Lleol
- Gwasanaethau Addysg
- Gwasanaethau Tân ac Achub
- Yr Heddlu a Gwasanaethau Barnwrol
- Darparwyr sector gwirfoddol

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio cwmnïoedd trydydd parti allanol (proseswyr data) i brosesu eich gwybodaeth bersonol. Bydd y cwmnïoedd hyn wedi'u rhwymo gan gytundebau dan gontract i sicrhau y caiff yr wybodaeth ei chadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel. Mae hyn yn golygu na allant wneud unrhyw beth â'ch gwybodaeth bersonol oni bai ein bod wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni. Byddant yn storio'r wybodaeth yn ddiogel ac yn ei chadw am y cyfnod y byddwn yn eu cyfarwyddo i wneud hynny.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd partïon at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Bydd y practis yn defnyddio ac yn rhannu eich gwybodaeth dim ond pan fydd sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny.

Gellir dod o hyd i'r rhestr lawn o sut y gallai eich data gael eu defnyddio a'u rhannu yn **ATODIAD 1**.

## Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol

Mae'r seiliau cyfreithiol ar gyfer y rhan fwyaf o'n prosesu yn ymwneud â'ch gofal a'ch triniaeth uniongyrchol:

- **Erthygl 6(1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;**

Pan fo gennym rwymedigaeth gyfreithiol benodol sy'n mynnu prosesu data personol, dyma'r sail gyfreithiol:

- **Erthygl 6(1)(c) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi.**

Pan fyddwn yn prosesu data categori arbennig, er enghraifft, data yn ymwneud ag iechyd, tarddiad ethnig neu hil neu gyfeiriadedd rhywiol, mae angen i ni fodloni amod ychwanegol o'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Pan fyddwn yn prosesu data categori arbennig at ddibenion yn ymwneud â chomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd, dyma'r amod:

- **Erthygl 9(2)(h) – Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu'r gweithiwr i weithio, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol; neu**
- **Erthygl 9(2)(i) – Mae prosesu yn angenrheidiol am resymau lles y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, fel amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd ac o gynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol.**

Efallai y bydd y Practis yn prosesu eich data personol at ddibenion ymchwil. Mewn amgylchiadau o'r fath, dyma ein sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny:

- **Erthygl 6(1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr.**

Pan fyddwn yn prosesu data categori arbennig at ddibenion ymchwil, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- **Erthygl 9 (2)(a) – Rydych wedi rhoi eich cydsyniad penodol**
- **Erthygl 9(2)(j) - mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol.**

Pan fo'r Practis yn dibynnu ar eich cydsyniad ar gyfer y prosesu, mae gennych yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

Efallai y bydd y practis hefyd yn prosesu data personol at ddibenion neu mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol (gan gynnwys achosion cyfreithiol arfaethedig), at ddibenion cael cyngor cyfreithiol, neu at ddibenion sefydlu, practis neu amddiffyn hawliau cyfreithiol. Pan fyddwn yn prosesu data personol at y dibenion hyn, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- **Erthygl 6(1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr; neu**
- **Erthygl 6(1)(c) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi.**

Pan fyddwn yn prosesu categori arbennig o ddata at y dibenion hyn, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- **Erthygl 6(2)(f) – Mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, practis neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol; neu**
- **Erthygl 9(2)(g) – Mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol.**

Mewn amgylchiadau prin, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith neu amddiffyn llesiant pobl eraill. Er enghraifft, diogelu plant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mewn amgylchiadau o'r fath, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- **Erthygl 6(1)(c) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi; neu**
- **Erthygl 6(1)(d) – Mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn diddordeb hanfodol testun y data neu berson naturiol arall; neu**
- **Erthygl 6(1)(e) – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;**

Pan fyddwn yn rhannu categorïau arbennig o ddata at ddibenion diogelu, dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hyn:

- **Erthygl 9(2)(g) – Mae prosesu yn angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol; Deddf Diogelu Data 2018 S10 ac Atodlen 1, Paragraff 18 'Diogelu plant ac unigolion mewn perygl'**

## Cadw'ch Gwybodaeth Bersonol / Storio'ch Gwybodaeth

Mae'n ofynnol arnom yn unol â chyfraith y DU i gadw'ch gwybodaeth a'ch data am gyfnod penodedig, y cyfeirir ato'n aml fel y cyfnod cadw. Bydd y Practis yn cadw'ch gwybodaeth yn unol â pholisi rheoli cofnodion y practis sydd i'w weld yma. https://www.valeofneathgps.org/_common/getdocument?id=388314

## Sut i Gysylltu â Ni

Cysylltwch â'r practis os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein hysbysiad preifatrwydd neu am yr wybodaeth rydym yn ei chadw amdanoch drwy'r dulliau isod:

ENW'R PRACTIS: The Vale Of Neath Practice, Vale Of Neath Medical Centre

FFÔN: 01639 509050

E-BOST: practice.manager.w98046@wales.nhs.uk

Os oes gennych bryderon ynghylch sut rydym yn prosesu eich data personol, gallwch wneud cwyn drwy: practice.manager.w98046@wales.nhs.uk

## Manylion Cyswllt ein Swyddog Diogelu Data

Mae'n ofynnol ar y practis i benodi Swyddog Diogelu Data. Mae hon yn rôl hanfodol wrth hwyluso atebolrwydd y practis a chydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Diogelu Data'r DU.

**Ein Swyddog Diogelu Data yw:**

Iechyd a Gofal Digidol Cymru,
Llywodraethu Gwybodaeth, Gwasanaeth Cymorth y Swyddog Diogelu Data
6ed Llawr, Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD
E-bost: DPOService@wales.nhs.uk

## Eich Hawliau

Mae GDPR y DU yn cynnwys nifer o hawliau.  Yn gyffredinol, rhaid i ni ymateb i geisiadau mewn perthynas â’r hawliau o fewn un mis, er bod rhai eithriadau i hyn.

Mae argaeledd rhai o’r hawliau hyn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol sy’n berthnasol mewn perthynas â phrosesu eich data personol, mae rhai amgylchiadau lle na fyddwn yn cadarnhau cais i arfer hawl.

Mae eich hawliau a sut maent yn berthnasol wedi’u disgrifio isod:

## Yr hawl i gael gwybod

Mae eich hawl i gael gwybod wedi’i bodloni gan ddarpariaeth yr hysbysiad preifatrwydd hwn, yn ogystal â gwybodaeth debyg pan fyddwn yn cyfathrebu â chi’n uniongyrchol – ar y pwynt cyswllt.

## Yr Hawl i gael Mynediad

Mae gennych yr hawl i gael copi o ddata personol rydym yn eu cadw amdanoch chi, yn ogystal â darnau eraill o wybodaeth a nodir yn GDPR y DU, er bod rhai eithriadau i’r hyn y mae’n ofynnol i ni ei ddatgelu.

Efallai na fydd y Practis yn darparu gwybodaeth pan fo gweithiwr iechyd proffesiynol priodol wedi penderfynu y byddai datgelu’r wybodaeth yn debygol o achosi niwed difrifol i’ch iechyd corfforol neu feddyliol chi neu eraill.

## Yr Hawl i Gywiro

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro unrhyw ddata anghywir sydd gennym amdanoch.

## Yr Hawl i Ddileu (yr hawl i gael eich anghofio)

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gael gwared ar ddata personol sydd gennym amdanoch. Nid yw hon yn hawl absoliwt ac, yn dibynnu ar y sail gyfreithiol sy’n berthnasol, efallai y bydd gennym seiliau cyfreithiol pwysicach i barhau i brosesu’r data.

## Yr Hawl i Gyfyngu ar Brosesu

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu’r data personol sydd gennym amdanoch. Gallwch ofyn i ni wneud hyn, er enghraifft, pan fyddwch yn herio cywirdeb y data.

## Yr Hawl i Gludadwyedd Data

Mae'r hawl hon ar gael dim ond pan mai cydsyniad yw’r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu o dan GDPR y DU, neu at ddibenion contract rhyngoch chi a'r Practis. Er mwyn i hyn fod yn berthnasol, rhaid i’r data gael eu cadw ar ffurf electronig. Yr hawl yw derbyn y data mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin.

## Yr Hawl i Wrthwynebu

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol amdanoch ar unrhyw adeg. Nid yw'r hawl yn absoliwt, ac efallai y byddwn yn parhau i ddefnyddio'r data os gallwn ddangos seiliau cyfreithiol cadarn, oni bai bod eich gwrthwynebiad yn ymwneud â marchnata.

## Hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau unigol awtomatig, gan gynnwys proffilio

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu bod yn destun penderfyniad yn seiliedig ar brosesu awtomatig yn unig, gan gynnwys proffilio. Os byddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau awtomatig, byddwn yn cofnodi hyn yn ein hysbysiad preifatrwydd ac yn sicrhau eich bod yn cael y cyfle i ofyn bod y penderfyniad yn ymwneud ag ystyriaeth bersonol.

## Yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth

Mae gennych yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth os nad ydych yn hapus ag unrhyw agwedd ar weithdrefnau prosesu data personol y practis, neu os ydych yn credu nad ydym yn bodloni'n cyfrifoldebau fel rheolydd data. Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane,
Wilmslow, SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113

E-bost: wales@ico.org.uk

## ATODIAD 1

***NODER: Bwriedir hwn fel templed ar gyfer practisiau sy'n seiliedig ar fathau o rannu gwybodaeth sy'n digwydd. Dylai practisiau sicrhau eu bod wedi adlewyrchu eu holl rannu trwy ychwanegu llifau practis ychwanegol a dileu unrhyw enghreifftiau nad ydynt yn berthnasol.***

**Gweithio clwstwr –** Mae'r practis yn gweithio fel rhan o Upper Valleys Cluster. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau ar draws y boblogaeth i gefnogi gofal a thriniaeth. Bydd data'n cael eu rhannu rhwng practisiau clwstwr ar gyfer darparu gofal, er enghraifft i ddarparu meddygon teulu llanw neu lle cynigir gwasanaeth megis ffisiotherapi.

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Darparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol uniongyrchol i gleifion unigol trwy grwpio meddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol. | Meddygon teulu eraill o fewn y clwstwr, gwasanaeth gwirfoddol, rheoli meddyginiaethau, gwasanaethau rhwydwaith cymunedol – iechyd a gofal cymdeithasol integredig e.e. Nyrsio Ardal, a'r Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol. | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Dilysu Anfoneb** – Os ydych wedi derbyn triniaeth yn y GIG, gellir rhannu eich gwybodaeth bersonol mewn amgylchedd diogel, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd cywir yn talu cost eich gofal a'ch triniaeth.

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Er mwyn sicrhau y codir y tâl am gost eich gofal a'ch triniaeth ar y Bwrdd Iechyd cywir. | Bydd manylion y driniaeth a dderbynnir yn cael eu rhannu at ddibenion codi tâl gyda Byrddau Iechyd ac fel rhan o'r gofynion archwilio. | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) –** Corff cenedlaethol yw DHCW, sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol i gasglu gwybodaeth am y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cesglir data gan sefydliadau ledled GIG Cymru i adrodd ar berfformiad y GIG fel y gellir gwneud gwelliannau i wasanaethau. Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau DHCW a sut mae'n defnyddio data ar gael yn: https://dhcw.nhs.wales/

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Mae gan DHCW gyfrifoldeb cyfreithiol i gasglu gwybodaeth i adrodd i Wybodaeth GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. | GIG Cymru, Llywodraeth Cymru trwy ddata ac ystadegau anhysbys, Gofal Sylfaenol ar gyfer trafodaeth ar wella perfformiad i'r gwasanaethau a gynigir | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Cofrestru ar gyfer Gofal Iechyd y GIG** - Bydd pawb sy'n derbyn gofal y GIG yn cael eu cofrestru ar gronfa ddata genedlaethol, sy'n cadw eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif GIG. Ni chedwir unrhyw wybodaeth feddygol. Cedwir y gronfa ddata hon o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) sydd â'r cyfrifoldebau cyfreithiol i gasglu Data'r GIG

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Cronfa ddata genedlaethol ganolog o'r holl gleifion sy'n derbyn gofal y GIG yng Nghymru. Mae hwn yn cael ei gadw yn DHCW. Mae ganddo gyfrifoldeb cyfreithiol i gasglu'r data hyn. | GIG Cymru – Rhennir gwybodaeth ddienw â Llywodraeth Cymru ar gyfer dadansoddiad ystadegol. | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Gofal Uniongyrchol** – Bydd y practis yn rhannu eich gwybodaeth â gwasanaethau eraill er mwyn darparu gofal a thriniaeth uniongyrchol i chi, er enghraifft eich cyfeirio at driniaeth arbenigol mewn ysbyty

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Rhoi iechyd neu ofal cymdeithasol uniongyrchol i | Byrddau Iechyd, Gwasanaethau Gwirfoddol, Rheoli Meddyginiaethau, | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...' |

| | | |
|---|---|---|
| gleifion unigol trwy weithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau arbenigol mewn ysbyty. | Gwasanaethau Rhwydwaith Cymunedol, timau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig e.e. Nyrsio Ardal, Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol. | Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Gofal Uniongyrchol – rhannu eich presgripsiwn â'ch fferyllfa leol**

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Am y gofyniad i gyflawni'ch cais am bresgripsiwn. | Rhwng Meddyg Teulu a Fferylliaeth | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Gofal Uniongyrchol – rhannu eich presgripsiwn â'ch fferyllfa leol drwy'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig.**

| Pwrpas y Prosesu | Derbynyddion | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Y gofyniad i gyflawni'ch cais am bresgripsiwn electronig. | Meddyg Teulu, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, GIG Lloegr a'ch fferyllfa leol<br><br>Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am EPS yma. | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Cofnod Cryno Meddygon Teulu Cymru** – Mae'r cofnod hwn yn darparu crynodeb o'r wybodaeth bwysig sydd wedi'i chynnwys yn eich cofnodion meddyg teulu gan gynnwys eich enw llawn, cyfeiriad a manylion cyswllt, ynghyd â meddyginiaeth gyfredol, meddyginiaeth flaenorol a ragnodwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, problemau cyfredol neu ddiagnosis, canlyniadau profion diweddar a gwybodaeth am alergedd neu adwaith niweidiol. Gallwch "optio allan" o rannu eich gwybodaeth yn y cofnod byr. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: **Cofnod Meddyg Teulu Cymru**

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Caniatáu mynediad cyflym ac amserol i weithiwr gofal iechyd proffesiynol at yr wybodaeth glinigol fwyaf perthnasol a diweddar wrth ddarparu gofal a thriniaeth uniongyrchol i chi. | Meddygon a nyrsys ysbytai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gofal, meddygon a nyrsys sy'n darparu gwasanaethau y tu allan i oriau meddyg teulu,<br>fferyllwyr ysbytai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gofal. Ymatebwyr cyntaf ac uwch barafeddygon yn y gwasanaeth ambiwlans sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gofal, fferyllwyr cymunedol yn darparu ymgynghoriad un-i-un i chi drwy'r Gwasanaeth Dewis Fferyllfa.<br>Brechwyr sy'n rhoi brechiadau COVID-19 drwy System Imiwneiddio Cymru (WIS) – mae mynediad i frechwyr wedi'i gyfyngu i weld meddyginiaeth ar bresgripsiwn ac alergeddau/adweithiau niweidiol i feddyginiaeth drwy WGPR yn unig | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**<u>Gofal Uniongyrchol</u> –** a ddarperir y tu allan i oriau ac mewn adrannau damweiniau ac achosion brys

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Efallai y bydd angen i staff y tu allan i oriau a staff damweiniau ac achosion brys gael mynediad i'ch cofnodion er mwyn darparu'r gofal a'r driniaeth fwyaf priodol i chi. | Meddygon a nyrsys ysbytai mewn adrannau damweiniau ac achosion brys sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gofal. | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, |

| | | |
|---|---|---|
| | Meddygon a Nyrsys sy'n darparu gwasanaethau y tu allan i oriau meddyg teulu.<br>Fferyllwyr ysbytai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch gofal. | darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Rhaglenni Sgrinio Cenedlaethol –** Bydd y practis yn rhannu data at ddibenion gwahodd cleifion i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio cenedlaethol. Defnyddir y rhaglenni hyn i gynorthwyo i ganfod rhai cyflyrau meddygol a chlefydau yn gynnar. Ar hyn o bryd, mae sawl rhaglen ar waith gan gynnwys sgrinio'r coluddyn, sgrinio ymlediadau aortig, sgrinio'r fron, sgrinio diabetes, sgrinio serfigol, sgrinio cynenedigol, sgrinio clyw babanod newydd-anedig a sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig.
Mae'r gyfraith yn caniatáu i The Vale Of Neath Practice rannu gwybodaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i chi gael eich hysbysu i fynychu'r rhaglen sgrinio berthnasol.

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Rhennir gwybodaeth fel bod y cleifion â'r risg uchaf yn cael eu hadnabod a'u gwahodd i sgrinio lle gellir cynnig triniaeth. | Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Diabetic Eye Screening Wales (DESW)<br>AAA Screening<br>Breast Test Wales<br>Cervical Screening Wales<br>Bowel Screening Wales | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

**Rheoli Meddyginiaethau –** Gall y practis gynnal adolygiadau o feddyginiaethau a ragnodir i gleifion.

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnal adolygiad o feddyginiaeth ar bresgripsiwn i sicrhau bod cleifion yn derbyn y triniaethau | Rheoli meddyginiaethau, fferyllfeydd, practisiau meddygon teulu, gwasanaethau rhwydwaith cymunedol – iechyd a gofal cymdeithasol integredig e.e. Nyrsio | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, |

| | | |
|---|---|---|
| diweddaraf a mwyaf cost-effeithiol a phriodol | Ardal, a'r Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol. | darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9 (2) (i) '…yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol…' |

**Archwiliad Clinigol –** Mae Archwiliad Clinigol yn caniatáu adolygiad o ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion. **Dim ond ar gyfer sefydliadau sy'n gyfrifol am y** Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) **y bydd y practis yn rhannu gwybodaeth**

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| At ddibenion ymchwil feddygol ac adolygu ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i gleifion | At ddibenion archwilio clinigol cenedlaethol<br>Bydd y data'n cael eu rhannu gyda'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru. | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9 (2) (i) '…yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol…' |

**Iechyd Cyhoeddus Cymru – Er mwyn atal clefydau heintus a chlefydau eraill rhag lledaenu, sy'n bygwth iechyd y boblogaeth, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu data.** Os bydd digwyddiad, bydd yr wybodaeth angenrheidiol yn cael ei hadrodd i Iechyd Cyhoeddus Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru ac adrodd am afiechydon, gweler – **https://icc.gig.cymru/**

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Rhoi iechyd neu ofal cymdeithasol uniongyrchol i gleifion unigol.<br><br>Rhaid i wybodaeth gael ei rhannu yn ôl y gyfraith o dan ddeddfwriaeth iechyd cyhoeddus felly ni allwch wrthwynebu | Staff Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd ac Ysbytai, Llywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol eraill yn ôl yr angen | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9 (2) (i) '…yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol…' |

**Ymchwil Feddygol – Mae ymchwil feddygol yn caniatáu i ymchwilwyr ddeall achosion afiechydon a chefnogaeth i ddatblygiad gofal a thriniaeth glinigol newydd a gwell. Efallai y byddwn yn defnyddio gwybodaeth sydd gennym amdanoch chi mewn ymchwil. Dim ond lle mae cyfraith yn caniatáu neu gyda'ch cydsyniad y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â sefydliadau megis Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.**

| Pwrpas y Prosesu | Derbynwyr | Sail Gyfreithiol |
|---|---|---|
| At ddibenion ymchwil feddygol ac adolygu ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i gleifion | At ddibenion ymchwil feddygol, bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â:<br><br>Bydd data'n cael eu rhannu gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru<br><br>Healthcare Quality Improvement Partnership and Digital Health and Care Wales.<br>THIN: The Health Improvement Network | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(a) – 'mae'r testun data wedi rhoi caniatâd penodol i...'<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9(2)(j) – 'mae angen prosesu at... ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaethau a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, gan barchu'r hanfod o'r hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a buddiannau sylfaenol y testun data' |

| **Diogelu** – Efallai y bydd sefyllfaoedd prin lle mae angen i ni rannu gwybodaeth i amddiffyn pobl ag anghenion diogelu megis plant, staff neu hyd yn oed chi rhag niwed. Nid oes angen cydsyniad i'r practis wneud hyn. | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| Amddiffyn plant, staff neu oedolion agored i niwed rhag niwed. | Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu neu gyrff gorfodi'r gyfraith eraill lle mae'r gyfraith yn caniatáu.<br>neu<br>Mae'n rhaid rhannu eich gwybodaeth os yw llys yn gorchymyn i ni wneud. | Erthygl 6(1)(c) '…yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi'<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 6(1)(d) '… Yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn buddiannau hanfodol y testun data neu fod dynol arall'.<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 6(1)(e) '…yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol…'<br><br>Erthygl 9(2)(g) '…yn angenrheidiol am resymau buddiannau'r cyhoedd sylweddol.'<br>Deddf Diogelu Data 2018, S10 ac Atodlen 1 Paragraff 18 'Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl' |

| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW)** – Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn arolygiaeth annibynnol ac yn rheoleiddiwr gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol i sicrhau bod gofal diogel yn cael ei ddarparu ac i nodi meysydd i'w gwella. Mae'n orfodol ac yn ofyniad cyfreithiol i'r practis hysbysu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru am unrhyw ddigwyddiadau difrifol a allai ddigwydd megis pan fydd diogelwch claf wedi'i roi mewn perygl.<br><br>**Gellir cael rhagor o wybodaeth yn:** https://www.agic.org.uk/?lang=en | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhannu ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel y gall gyflawni ei | Staff Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ôl y cyfarwyddyd. | Erthygl 6 (1) (c) '…yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi' |

| | | |
|---|---|---|
| swyddogaethau rheoleiddio. Mae hyn yn golygu na allwch wrthwynebu. | | Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9(2)(j) – 'mae angen prosesu at... ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn unol ag Erthygl 89(1) yn seiliedig ar gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaethau a fydd yn gymesur â'r nod a ddilynir, gan barchu'r hanfod o'r hawl i ddiogelu data a darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a buddiannau sylfaenol y testun data' |

| **Cyngor / Hawliadau Cyfreithiol** – Efallai y bydd sefyllfaoedd prin lle mae unigolion yn gwneud hawliadau yn erbyn y practis. Pan fydd hyn yn digwydd efallai y byddwn yn rhannu'r holl hawliadau a chofnodion/gwybodaeth feddygol berthnasol er mwyn galluogi'r practis i gael cyngor cyfreithiol, sefydlu ffeithiau'r achos ac amddiffyn achosion o'r fath. | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| I gael cyngor cyfreithiol, neu at ddibenion sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol (gan gynnwys darpar achos cyfreithiol) | Gellir rhannu eich gwybodaeth ag Undebau Amddiffyn Meddygol y Meddyg Teulu, cyfreithwyr neu gynrychiolwyr cyfreithiol a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy'n gweithredu y Cynllun ar gyfer Indemniad practis Meddygol Cyffredinol (Cymru Gyfan). Mae Hysbysiad Preifatrwydd Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ar gael yma. | Erthygl 6 (1) (c) '…yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddi'<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(f) – yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9(2)(g) '..angenrheidiol am resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

| **SAIL – Mae Banc Data SAIL yn fanc data poblogaeth cyfoethog y gellir ymddiried ynddo. Mae'n gwella bywydau trwy ddarparu data diogel, cysylltadwy a dienw i ymchwilwyr. Dylai unrhyw un sy'n dymuno optio allan o ddata dienw sy'n ymwneud â'u hanfon at SAIL neu eu defnyddio at ddibenion eilaidd eraill, wneud cais yn uniongyrchol i ni fel eu meddyg teulu.** | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| Cesglir data yn SAIL at ddibenion ymchwil iechyd gwyddonol neu hanesyddol.<br><br>Nid yw Banc Data SAIL yn derbyn nac yn trin data adnabyddadwy. Mae manylion am y broses anonymeiddio a chysylltu ar gael yma. | Cronfa Ddata SAIL | Erthygl 6(1)(e) '…yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol…'<br><br>Erthygl 9(2)(j) '….mae angen prosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol' |

| **Gwasanaeth Archwilio Meddygol (GAM) – Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth MES. Mae'r MES yn darparu craffu annibynnol ar farwolaethau nad ydynt yn rhai crwnerol yn yr ysbyty ac yn y gymuned.** | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| Mae'r practis yn cyrchu/rhannu gwybodaeth gyda MES er mwyn craffu'n annibynnol ar farwolaethau nad ydynt yn rhai crwnerol.<br><br>Gall y practis hefyd rannu manylion perthynas agosaf yr ymadawedig gyda'r MES. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma. | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Y Gwasanaeth Archwilio Meddygol | Ar gyfer cyrchu cofnodion yr ymadawedig:<br>Adran 251 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a Rheoliad 5 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth am Gleifion) 2002.<br><br>Ar gyfer rhannu manylion cyswllt y perthynas agosaf:<br>Erthygl 6(1)(e) '…yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol…' |

| **<u>Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS)</u> – Iechyd Cyhoeddus Cymru a'ch Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth NERS. Mae Gwasanaeth NERS yn darparu rhaglen 16 wythnos o weithgarwch corfforol ar ôl eich atgyfeirio gan Staff Clinigol y practis.** | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| Mae eich gwybodaeth bersonol yn cynnwys cyflyrau meddygol perthnasol, gweithgarwch corfforol ac arferion sy'n cael ei rhannu gan y practis. Bydd y practis yn defnyddio system atgyfeirio ddiogel i'ch galluogi i gael mynediad at y Gwasanaeth NERS. | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Darparwyr NERS perthnasol yn eich ardal, sy'n gallu cynnwys yr Awdurdod Lleol, canolfannau/Ymddiriedolaethau Hamdden a'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn rheolwyr data unwaith y gwneir yr atgyfeiriad. Caiff atgyfeiriadau i'r gwasanaeth hwn eu gwneud a bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gan ddefnyddio proses atgyfeirio electronig o'r enw "Thesus." Gweithredir gan brosesydd data Cyber Media Solutions. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir dod o hyd i wybodaeth preifatrwydd mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn yma. | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol. |

| **Datgelu Gwyliadwriaeth Fideo i'r Heddlu – Gall The Vale Of Neath Practice wneud datgeliadau gwirfoddol o unrhyw fath o wyliadwriaeth fideo neu sain mewn achosion sy'n gofyn am ymyrraeth gan yr heddlu i gefnogi ymchwiliadau parhaus** | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |

| | | |
|---|---|---|
| **Lle mai pwrpas y system wyliadwriaeth yw atal a chanfod troseddau, gellir darparu datgeliad(au) gwirfoddol o luniau/delweddau i'r heddlu, pan fydd digwyddiad yn cael ei riportio i'r heddlu i ymchwilio.** | Yr Heddlu | Erthygl 6(1)(e) '…yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol…'<br><br>Erthygl 9(2)(g) '…yn angenrheidiol am resymau buddiannau'r cyhoedd sylweddol.'<br><br>Deddf Diogelu Data 2018, Atodlen 2 (1)(a) atal neu ganfod troseddau a<br><br>Deddf Diogelu Data 2018 - Atodlen 2 (1)(b) dal neu erlyn troseddwyr |

| **Rhannu manylion cleifion ar gyfer cronfa ddata Plant sy'n Colli Addysg - mae'n ofynnol i The Vale Of Neath Practice rannu data demograffig er mwyn galluogi awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt yn derbyn addysg yn yr ysgol** | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| **Lle mai pwrpas rhannu yw cydymffurfio â'r Offeryn Statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 66(3) o Ddeddf Plant 2004, lle mae'n gorchymyn rhai awdurdodau lleol fel ardaloedd cyngor peilot i sefydlu a gweithredu cronfa ddata Plant sy'n Colli Addysg** | Awdurdodau Lleol yn ardaloedd cyngor y cynllun peilot -<br>• Cyngor Sir Caerdydd<br>• Cyngor Sir Caerfyrddin<br>• Cyngor Sir Gwynedd<br>• Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Cyngor Sir Fynwy<br>• Cyngor Sir Powys<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 6(1)(c)....... Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol).<br><br>Offeryn Statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 66(3) o Ddeddf Plant 2004 |

| Rhaglen Frechu rhag y Ffliw 2025/26 – Mae'n ofynnol i The Vale Of Neath Practice ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am glaf sy'n berthnasol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen frechu rhag y ffliw. | | |
|---|---|---|
| **Pwrpas y Prosesu** | **Derbynwyr** | **Sail Gyfreithiol** |
| **Er mwyn galluogi cyflwyno'r rhaglen frechu rhag y ffliw, at ddiben nodi grwpiau blaenoriaeth, anfon gwahoddiadau, trefnu apwyntiadau ar gyfer brechiadau rhag y ffliw, a rheoli a monitro imiwneiddio drwy System Imiwneiddio Cymru.** | • Byrddau Iechyd Lleol<br>• Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) | Erthygl 6(1)(e) '...yn angenrheidiol ar gyfer cwblhau tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol...'<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9(2)(h) '...yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol ar gyfer asesu gallu gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth, neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.'<br><br>**a/neu**<br><br>Erthygl 9(2)(I) '… yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol…'<br><br>Yn unol â pharagraff 85 o Atodlen 3 i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau Contract GMS"), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol i ofyn i gontractwyr meddygon teulu |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am glaf sy'n berthnasol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen frechu rhag y ffliw ("y wybodaeth berthnasol"), yn unol â'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn natganiad ysgrifenedig y Gweinidog. Mae'n ofynnol i gontractwyr meddygon teulu gydymffurfio â'r cais hwn o dan delerau Rheoliadau Contract y GMS. |